

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	22 Tachwedd 2016
<b>TEITL</b>	Gŵyl Arfordir Llŷn
<b>PWRPAS</b>	Diweddarau ar Wyl 2016
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor, am weithgareddau Gŵyl Arfordir Llŷn 2016.
- 1.2 Y grwpiau oedd yn cydweithio eleni oedd Gwasanaeth AHNE Llŷn, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Forwrol Llŷn a Phlas Heli.

## **2.0 GWEITHGAREDDAU PARTNERIAID**

- 2.1 Bu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal Blas y Môr yn Aberdaron a Phorthdinllaen a Diwrnodau Hwyl ym Mhorthor, Llanbedrog a Phorthdinllaen gyda'r gweithgareddau yn amrywio o arddangosiadau coginio cynnyrch lleol, caiacio a gemau i blant. Unwaith eto eleni, bu'r adborth yn dda ymysg ymwelwyr a thrigolion.
- 2.2 Cynhaliodd Amgueddfa Forwrol Llŷn eu sgysiau arferol gyda nifer yn mynychu i gael blas ar hanes lleol megis sgwrs am "Derfysgwyr Yd ac Ysbeilwyr Llongau" gan Mr Glyn Parry a "The Shipwrecks of Llŷn" gyda Mr Chris Holden.
- 2.3 Roedd Sportif Arfordirol Llŷn yn ddigwyddiad ar raddfa fawr fel rhan o'r Wyl gyda Phlas Heli yn cydlynu taith feic heriol o amgylch arfordir y Penrhyn. Cynhaliwyd Hwyl yr Heli hefyd fel digwyddiad cymunedol yn cynnwys stondinau a chyfle i flasau chwaraeon awyr agored amrywiol.

## **3.0 GWEITHGAREDDAU GWASANAETH AHNE LLŷN**

- 3.1 Cynhaliodd y Gwasanaeth AHNE dair taith fel rhan o'r Wyl yn ardaloedd Rhiw, Llanbedrog a Nant Gwrtheyrn. Roedd y teithiau hyn yn seiliedig ar gylchdeithiau sydd wedi eu datblygu fel rhan o brosiect gan Cyngor Gwynedd a ariannwyd gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir. Gyda nawdd y Gronfa, mae'r Awdurdod wedi sefydlu 18 cylchdaith yng Ngwynedd oddi ar Lwybr yr Arfordir, gyda'r gobaith o greu buddsoddiad economaidd yn y cymunedau gerllaw.
- 3.2 Bu'r teithiau yn boblogaidd a bu'n gyfle i staff y Gwasanaeth rannu gwybodaeth am AHNE Llŷn a thynnu sylw at ei nodweddion a rhinweddau arbennig.

#### **4.0 TREFNIADAU'R DYFODOL**

- 4.1 Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer partneriaid yr Ŵyl o fewn yr wythnosau nesaf ac mae'n fwriad parhau gyda'r un trefniadau o gyd-gynnal a chydweithio ble bynnag bydd cyfle a chynhyrchu taflen wybodaeth. Cafwyd cais hefyd gan gydlynwyr Marchnad Cynnyrch Llŷn i fod yn rhan o'r trafodaethau nesaf er mwyn adnabod cyfleon i gydweithio a datblygu'r Farchnad honno ymhellach.

#### **5.0 ARGYMHELLIAD**

- 5.1 Derbyn yr holl wybodaeth uchod.